Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

# 2019

# DAN ADOLYGIAD











# CIPOLWG AR Y FLWYDDYN 2019

## IONAWR
- System blynyddoedd cynnar integredig
- Atal digartrefedd ymhlith pobl ifanc yng Nghymru

## CHWEFROR
- Ymateb i ddinasyddion sydd mewn dyled i wasanaethau cyhoeddus
- Tu hwnt i gontractio: stiwardiaeth gwasanaethau cyhoeddus i uchafu gwerth cyhoeddus
- Sut mae mynd i'r afael ag unigrwydd? Tystiolaeth ynghylch cefnogi pobl iau a phobl hŷn
- Cydraddoldeb Rhywiol: Dysgu gwersi gan wledydd Nordig
- Dadansoddi pwerau ac ysgogiadau polisi Llywodraeth Cymru

## MAWRTH
- Mudo yng Nghymru
- Caffael Cyhoeddus Cynaliadwy
- Sut y gall gwasanaethau cyhoeddus drin dyledwyr bregus yn well

## EBRILL
- Cefnogi gwelliannau mewn byrddau iechyd
- Gwella gwaith trawsbynciol
- Ymatebion posib Llywodraeth Cymru i ddiwygio mewnfudo Llywodraeth y DU
- Cyflwynodd Dr Helen Hodges a Dr Paul Worthington ein gwaith ar ymateb i ddinasyddion mewn dyled i wasanaethau cyhoeddus i Fwrdd Partneriaeth yr Ymddiriedolaeth Cyngor Ariannol

## MAY
- Dadansoddiad o'r ffactorau sy'n cyfrannu at y cyfraddau uchel o ofal yng Nghymru
- Pwerau ac ysgogiadau polisi – yr hyn sy'n gweithio wrth gyflawni polisïau Llywodraeth Cymru
- Polisi a Gwleidyddiaeth yng Nghymru mewn Cyfnod Heb ei Debyg
- Uwch-gynhadledd Yr Hyn sy'n Gweithio: Gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc
- Uwch-gynhadledd Yr Hyn sy'n Gweithio: Iechyd meddwl ieuenctid
- Cyflwynodd Dr Hannah Durrant Theory Newid y ganolfan i'r Rhwydwaith Prifysgolion ar gyfer Ymgysylltu â Pholisi

## MEHEFIN
- Wedi cyrraedd y pwynt tyngedfennol: Llywodraeth leol Cymru a chyni
- Uwch-gynhadledd Yr Hyn sy'n Gweithio: Perfformiad Economaidd Lleol
- Cyflwynodd Dr Andrew Connell ein gwaith ar ddigartrefedd ieuenctid yn Eisteddfod yr Urdd

## GORFFENNAF
- Asesu effaith gweithgarwch undebau llafur
- Cychwyn ein podlediad newydd. Pennod 1 PEP Talk: Digartrefedd Ieuenctid
- Cefnogi Gwelliannau mewn Byrddau Iechyd

## MEDI
- Mynd i'r afael ag Anghydraddoldebau trwy Gyllidebu Rhywedd
- Cydraddoldeb Rhywiol – Dysgu Gwersi gan Wledydd Nordig
- Hunanladdiad ymhlith gwrywod: epidemig tawel
- Pennod 2 PEP Talk: Y dreth gyngor a dyledwyr bregus
- Llywodraeth leol Cymru a chyni

## HYDREF
- Gwerth undebau llafur
- Sicrhau economi ffyniannus: safbwyntiau o wledydd a rhanbarthau eraill
- Uwch-gynhadledd Yr Hyn sy'n Gweithio: cenhedloedd datganoledig a chydweithio
- Pennod 3 PEP Talk: Cydraddoldeb Rhywiol
- Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau trwy gyllidebu rhywedd
- Rhoddodd Emma Taylor-Collins dystiolaeth i Bwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau'r Senedd ar ein gwaith ar gyni

## TACHWEDD
- Datblygu agwedd strategol at gaffael
- Hyrwyddo cysylltiadau ystyrlon rhwng tystiolaeth ac ymarfer
- Gwleidyddiaeth tystiolaeth: mewn sgwrs â Dr Justin Parkhurst
- Model Preston: datrysiad i Gymru?

## RHAGFYR
- Pam 'Trawsnewid Cyfiawn'? Datgarboneiddio a chyfiawnder economaidd
- Cyflwynodd Emma Taylor-Collins a'r Athro James Downe ein gwaith ar gyni i Gyfarwyddiaeth Trysorlys Llywodraeth Cymru

## ALLWEDD
- Adroddiad
- Blog
- Cinio a Dysgu Llywodraeth Cymru
- Cyflwyniad
- Digwyddiad
- Podlediad

# Cyflwyniad

Cafodd 2019 ei nodi gan ansicrwydd gwleidyddol a dadleuon polisi polareiddiedig. Roedd yn bwysig felly fod llunwyr polisi a gwasanaethau cyhoeddus yn gallu cael mynediad i dystiolaeth ddibynadwy annibynnol ynglŷn â'r hyn sy'n gweithio.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, rydym wedi gweithio'n agos gydag arbenigwyr academaidd, gwasanaethau cyhoeddus a gweinidogion Llywodraeth Cymru i bontio'r bwlch sy'n aml yn bodoli rhwng meysydd polisi ac ymchwil. Rydym wedi cyhoeddi mwy na 40 o adroddiadau ac wedi cynnull nifer o ddigwyddiadau sydd wedi dod â mwy na 100 o ymchwilwyr o ar draws y DU, Canada, Denmarc, Gwlad yr Iâ, Norwy a Sweden ynghyd â llunwyr polisi ac ymarferwyr i drafod yr heriau mawr o ran polisi sy'n wynebu Cymru.

Rydym hefyd wedi parhau i chwarae rôl bwysig fel rhan o **Rwydwaith Yr Hyn sy'n Gweithio**, sy'n gweithredu ar draws y DU, gan gydweithio â Chanolfannau Yr Hyn sy'n Gweithio eraill i sicrhau bod llunwyr polisi yng Nghymru â mynediad i'r dystiolaeth eu bod yn ei chynhyrchu ar wella iechyd, cyrhaeddiad addysgol, tyfiant economaidd, gofal cymdeithasol, ymyriad cynnar, heneiddio'n well, digartrefedd, llesiant, a lleihau troseddau.

Gwelwyd diddordeb cynyddol yn y dull sy'n seiliedig ar alw o gynnull tystiolaeth sydd wedi cael ei ddatblygu gennym, ac roeddem yn falch o gael ein dethol fel un o'r ddau sefydliad yn rownd derfynol gwobr fawr ei bri **Effaith ar Bolisi Cyhoeddus** y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol.

Rydym hefyd wedi tynnu ar ein proffil o weithio gyda llunwyr polisi i gyfrannu mewnwelediadau newydd at y llenyddiaeth academaidd newydd ar ddefnyddio tystiolaeth.

Roedd dyfnder, ehangder a maint y corff o waith y gwnaethom ei gynhyrchu yn 2019 yn ymdrech grŵp wirioneddol, ac rydym am ddiolch i'n cyllidwyr, yr arbenigwyr rydym wedi gweithio gyda nhw, ein grŵp ymgynghori, a'r holl dîm yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru am wneud y 12 mis diwethaf yn gymaint o lwyddiant.

## Yn 2019...

Cafodd ein hadroddiadau eu lawrlwytho **fwy na 4,000** o weithiau.

Cynyddwyd traffig i'n gwefan **mwy na 20%** o'i gymharu â ffigurau 2018.

Denodd y digwyddiadau a drefnwyd gennym bron i **400 o fynychwyr** a **mwy na 30 o siaradwyr**, gan gynnwys siaradwyr o Ganada, Norwy a Gwlad yr Iâ.

Enillon **dros 500** o ddilynwyr newydd ar Twitter a **425** o danysgrifwyr newydd i'n cylchlythyr.



# Amdanom ni





Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn helpu i wella'r broses o lunio polisïau a gwasanaethau cyhoeddus trwy gefnogi gweinidogion ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus i gael mynediad at a defnyddio tystiolaeth annibynnol drylwyr ynghylch yr hyn sy'n gweithio. Mae'n gweithio mewn partneriaeth ag ymchwilwyr ac arbenigwyr polisi blaenllaw i gyfuno a defnyddio tystiolaeth sy'n bodoli eisoes a nodi bylchau lle mae gofyn cynhyrchu gwybodaeth newydd.

Mae'r Ganolfan yn annibynnol ar y llywodraeth ond yn gweithio'n agos gyda llunwyr polisi ac ymarferwyr i ddatblygu syniadau newydd ynghylch sut mae mynd i'r afael â heriau strategol ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol, addysg, tai, yr economi a chyfrifoldebau datganoledig eraill.

Mae'r Ganolfan yn:

- cefnogi Gweinidogion Llywodraeth Cymru i nodi tystiolaeth awdurdodol ac arbenigedd annibynnol a all helpu i lywio a gwella polisi, cael mynediad iddynt a'u defnyddio;
- gweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus i gyrchu, cynhyrchu, gwerthuso a defnyddio tystiolaeth ynghylch yr hyn sy'n gweithio wrth fynd i'r afael â'r prif heriau economaidd a chymdeithasol; a
- thynnu ar ei gwaith gyda Gweinidogion a gwasanaethau cyhoeddus i hyrwyddo dealltwriaeth o sut gall tystiolaeth lywio a gwella'r broses o lunio polisi a gwasanaethau cyhoeddus a chyfrannu at ddamcaniaethau ynghylch llunio a gweithredu polisi.

Trwy secondiadau, lleoliadau PhD a'i rhaglen Prentisiaethau Ymchwil, mae'r Ganolfan hefyd yn helpu i feithrin gallu ymysg ymchwilwyr i gymryd rhan mewn ymchwil sy'n berthnasol i bolisi sy'n cael effaith.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'n gwefan: **www.wcpp.org.uk**

# Iechyd a Gofal Cymdeithasol

## PLANT A PHOBL IFANC SY'N DERBYN GOFAL

Mae nifer y plant a phobl ifanc sy'n cael eu rhoi mewn gofal yng Nghymru yn cynyddu ac mae pryderon sylweddol o ran cyflwr darpariaeth gofal a chomisiynu. Rydym yn cynhyrchu tystiolaeth a dadansoddiadau annibynnol i gefnogi gwasanaethau cyhoeddus er mwyn iddynt wella canlyniadau ar gyfer y grŵp hwn.

Gwnaethom gyhoeddi dadansoddiad empirig manwl o'r ffactorau sy'n gyrru **cynnydd yn nifer y plant a phobl ifanc mewn gofal ledled Cymru** ac rydym yn ymgymryd â thri darn o waith ar ffyrdd i ail-ddylunio comisiynu.

Rydym wedi cynnal adolygiad llenyddiaeth o brofiadau comisiynu **o safbwyntiau plant a phobl ifanc a'u teuluoedd biolegol**.

Ar y cyd ag arbenigwyr o'r Sefydliad Gofal Cyhoeddus, rydym wedi cynnal adolygiad rhyngwladol o arferion comisiynu.

Rydym wrthi'n datblygu cyfres o friffiau a ffeithluniau ar ddarpariaeth bresennol yng Nghymru, gan weithio gyda Chonsortiwm Comisiynu ar gyfer Plant Cymru.

## MYND I'R AFAEL Â HUNANLADDIAD

Yn gynyddol, cydnabyddir iechyd meddwl fel mater allweddol mewn polisi cyhoeddus a gofynnodd y Prif Weinidog i ni gyflenwi adolygiad cryno yn dadansoddi tueddiadau diweddaraf a chyflwr presennol y dystiolaeth ar gyfraddau **hunanladdiad ymysg dynion**.

## SUT MAE LLYWODRAETH LEOL WEDI YMATEB I DORIADAU MEWN CYLLIDEBAU

Mae cyfyngiadau ar wariant cyhoeddus wedi cyflwyno heriau i gynghorau Cymru. Gostyngodd wariant ar wasanaethau 12% rhwng 2009/10 a 2016/17, a bu gostyngiad o tua 37,000 o staff ymysg gweithlu llywodraeth leol Mewn partneriaeth â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, gwnaethom gynnull astudiaeth fanwl o sut **mae cynghorau yng Nghymru wedi ymateb i doriadau yn eu cyllideb**. Gwnaethom ddod i'r casgliad fod angen cynnal trafodaeth ynglŷn â chynaliadwyedd llywodraeth leol Cymru a sut y gellir cefnogi cynghorau i fod yn gydnerth. Cyflwynwyd y dadansoddiad yng Nghynhadledd Dadansoddi Cyllidol Cymru ac i swyddogion Llywodraeth Cymru mewn un o'n sesiynau 'cinio a dysgu' rheolaidd, yn ogystal ag i Gymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch-reolwyr Awdurdodau Lleol Cymru ac mewn cyfarfod briffio ar gyfer swyddogion yng Nghyfarwyddiaeth Trysorlys Llywodraeth Cymru.

## LLEIHAU UNIGRWYDD

Mae unigrwydd hefyd wedi denu sylw cynyddol. Yn 2019, gwnaethom adolygu'r hyn mae'r **tystiolaeth yn ei ddweud am unigrwydd yng Nghymru** ac yng ngwanwyn 2020 rydym yn cynnull cynhadledd bwysig iawn i archwilio'r hyn sy'n gweithio o ran dod i'r afael ag ynysu cymdeithasol ac unigedd.

## CEFNOGI BYRDDAU IECHYD

Her gymhleth ac uchel ei phroffil arall o ran polisi yw sut i gefnogi byrddau iechyd pan fo pryderon ynglŷn â gofal cleifion a/neu orwariant. Gwnaethom adolygu'r dystiolaeth sy'n bodoli a chynnull gweithdy gydag uwch-swyddogion Llywodraeth Cymru, arbenigwyr academaidd ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus gyda phrofiad uniongyrchol o drawsffurfio cynghorau a chyrff iechyd sy'n tangyflawni yn Lloegr a Chymru. Mae ein hadroddiad ar **gefnogi gwelliannau o fewn byrddau iechyd** yn crynhoi'r dystiolaeth ar ffyrdd o fynd i'r afael â'r broblem.



# Economi a Masnach

## TWF A CHYNHYRCHIANT

Dadansoddom **yr hyn y gall Gymru ei ddysgu gan ranbarthau â thwf uchel ar draws Ewrop.**

Cynullom uwchgynhadledd 'Yr Hyn sy'n Gweithio' ar dwf economaidd gyda chyflwyniadau gan y Gymdeithas Frenhinol er hybu'r Celfyddydau, Gweithgynhyrchion a Masnach, Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus, a Chanolfan Yr Hyn sy'n Gweithio ar gyfer Twf Economaidd Lleol. Gweithiom hefyd gyda'r Athro Phil McCann, cyfarwyddwr Productivity Insights Network y DU, i ddarparu'r dystiolaeth ddiweddaraf i Weinidog a Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth a'u Bwrdd Cynghori Gweinidogol ar yr hyn sy'n gyrru gwelliannau mewn cynhyrchiant.

Rydym wedi derbyn cyllid gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol ar gyfer astudiaeth dwy flynedd i archwilio sut gall sefydliadau lleol a rhanbarthol hyrwyddo cynhyrchiant, twf cynhwysol a datgarboneiddio. Rydym yn gweithio gydag ymchwilwyr o Demos a Phrifysgolion Surrey, Birmingham a Warwig i gynhyrchu a dadansoddi data meintiol a data o gyfweliadau yng Nghymru a rhanbarthau dethol Lloegr.

## PARTNERIAETH GYMDEITHASOL

Gwnaethom gynnal adolygiad o'r dystiolaeth ar werth undebau llafur, i'w haelodau a'u cyflogwyr. Gan adeiladau ar y gwaith hwn, gwnaethom gynnull gweithdy a ddaeth ag arbenigwyr academaidd, swyddogion Llywodraeth Cymru, y Swyddfa Ystadegau Gwladol, a TUC y DU a Chymru ynghyd, i ystyried sut y gellir asesu effaith gweithgareddau undebau llafur a'r bartneriaeth gymdeithasol statudol, y mae Llywodraeth Cymru yn ei chyflwyno, dros amser.

Yn 2019, gwnaethom lansio ein cyfres podlediad newydd **PEP Talk**, sy'n cynnig trosolwg byr ac ysgogol o'n gwaith ac yn cynnwys pennod ar **werth yr undebau llafur yng Nghymru**.

## MUDOLEDD

Gwnaethom gynnal astudiaeth o'r **effaith y gall Papur Gwyn ar fewnfudo Llywodraeth y DU gael ar economi Cymru**. Darganfuodd na fyddai bron dau draean o weithwyr yr UE sydd yng Nghymru ar hyn o bryd yn gymwys ar gyfer fisa Haen 2 gyda throthwy cyflog o £30,000, a gallai arwain at ostyngiad sylweddol mewn mewnfudo o'r UE i Gymru.

## CAFFAEL CYHOEDDUS

Mae caffael cyhoeddus yn cyfrif am gyfran sylweddol o wariant cyhoeddus Cymru a honnwyd ei fod yn cynnig ffordd i lywodraethau a gwasanaethau cyhoeddus annog twf economaidd lleol, gwaith teg a llesiant.

Rydym wedi bod yn archwilio'r dystiolaeth ar a yw'r canlyniadau hyn yn bosib drwy fabwysiadau dull mwy strategol o gaffael. Rydym wedi cyhoeddi dau adroddiad – ar **Tu hwnt i gontractio: stiwardiaeth gwasanaethau cyhoeddus i uchafu gwerth cyhoeddus** a **Caffael cyhoeddus cynaliadwy** – a thri blog, gan gynnwys un sy'n ystyried yr hyn y gall Cymru ei ddysgu gan **Fodel Preston**.

Ym mis Tachwedd, gwnaethom gynnull seminar i drafod heriau **datblygu dull strategol ar gyfer gwaith caffael** gyda mwy na 50 o ymarferwyr a chyfraniadau gan weithwyr proffesiynol ac arbenigwyr academaidd blaengar, gan gynnwys Liz Lucas o Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a Steve Robinson o Gyngor Caerdydd.



# Defnyddio Tystiolaeth a Llunio Polisi

Rydym yn gwybod bod y berthynas rhwng tystiolaeth a pholisi yn gymhleth ac y dylanwadir arni gan amrywiaeth o ffactorau. Yn dilyn ein profiad ein hun o weithio gyda llunwyr polisi ac arbenigwyr, rydym yn  gwneud gwaith ymchwil i ddatblygu dealltwriaeth o'r rôl y gall tystiolaeth ei chwarae i gefnogi gwell llunio polisi. Mae'r canlyniadau yn llywio'r ffyrdd y byddwn yn gweithio yn y dyfodol ac yn cyfrannu mewnwelediadau newydd i'r llenyddiaeth ar ddefnyddio tystiolaeth.

## UWCH-GYNHADLEDD 'YR HYN SY'N GWEITHIO'

Ni yw un o'r aelodau sefydledig hiraf o fewn y rhwydwaith o ganolfannau sy'n tyfu'n gyflym 'Yr Hyn sy'n Gweithio' ac rydym wedi parhau i chwarae rôl arweiniol yn ei genhadaeth o ddefnyddio tystiolaeth i wella cynllun a darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus ar draws y DU.

Yn 2019, cyfrannom at weithgareddau Cyngor a Grŵp Gweithrediadau'r Hyn sy'n Gweithio a threfnom gyfres o weithgareddau a digwyddiadau ar y cyd chanolfannau Yr Hyn sy'n Gweithio eraill.

Gwnaethom gynnull pum **Uwch-gynhadledd Yr Hyn sy'n Gweithio**, a ddaeth â'r dystiolaeth ar gyfres o faterion allweddol a ddatblygwyd gan ganolfannau Yr Hyn sy'n Gweithio i sylw llunwyr polisi yn y cenhedloedd datganoledig eraill, a grŵp bord gron gyda chyfarwyddwyr canolfannau Yr Hyn sy'n Gweithio ac uwch-gynrychiolwyr o Swyddfa'r Cabinet, y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol, a'r gweinyddiaethau datganoledig i drafod cydweithio rhwng canolfannau ac ymgysylltiad â chenhedloedd datganoledig.

## MAGU ARWEINWYR YMCHWIL Y DYFODOL

Un o fanteision gwaith y Ganolfan yw ei fod yn helpu i baratoi ymchwilwyr i ymgysylltu'n effeithiol â pholisi ac arfer.  Felly, rydym yn falch iawn y derbyniodd Dr Adrian Healy, Cymrawd Ymchwil yn y Ganolfan, gymrodoriaeth o fri Arweinwyr Ymchwil y Dyfodol Ymchwil ac Arloesi'r DU yn 2019.

I helpu i feithrin capasiti'r dyfodol ar gyfer ymchwil sy'n berthnasol i bolisi, mae'r Ganolfan yn rhedeg Prentisiaeth Ymchwil flynyddol. Mae hon yn rhoi cyfle i ymchwilwyr rhagorol sydd ar ddechrau eu gyrfa i ymuno â ni am 12 mis i ennill profiad personol o weithio gyda gwasanaethau cyhoeddus a Llywodraeth Cymru.  Mae'r cynllun wedi profi'n boblogaidd iawn, gan ddenu mwy na 100 o ymgeiswyr y llynedd, ac mae ein dau brentis ymchwil cyntaf, Sarah Quarmby a Suzanna Nesom, wedi mynd ati i ennill bwrsariaethau PhD er mwyn dilyn diddordebau ymchwil y cawsant eu datblygu ganddynt drwy eu gwaith yn y Ganolfan. Mae Sarah wrthi'n ymchwilio i sut mae syniadau polisi yn cael eu ffurfio a sut maent yn ennill cefnogaeth.  Mae Suzanna yn astudio'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau.

## CYNADLEDDAU A SEMINARAU

Gwnaethom groesawu cynhadledd bwysig ar **bolisi a gwleidyddiaeth mewn cyfnod heb ei debyg** mewn partneriaeth â Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru ym Mhrifysgol Abertawe, ac rydym wedi gwahodd nifer o'r ysgolorion arweiniol ar y defnydd o dystiolaeth i Gaerdydd er mwyn cyflwyno eu gwaith.

Gwnaethom gynnull seminar ar 'Gwleidyddiaeth Tystiolaeth', a oedd yn cynnwys Dr Justin Parkhurst o Ysgol Economeg Llundain ac ar 'What do we mean by data' gan yr Athro Louise Locock o'r Uned Ymchwil ar Wasanaethau Iechyd ym Mhrifysgol Aberdeen.

Cymeron ran mewn cynadleddau gan y Rhwydwaith Prifysgolion ar gyfer Ymgysylltu â Pholisi ym Mryste a Durham a chroesawom gyfarfod o'r rhwydwaith yng Nghaerdydd, a ganolbwyntiodd ar ffyrdd o hwyluso ymgysylltiad rhwng ymchwilwyr a gweinyddiaethau datganoledig.

Trefnom seminar ar **fanteision ac arferion gorau o ran defnyddio gwybodaeth** gyda Pharc Ymchwil y Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd, a oedd yn cynnwys cyflwyniadau gan ein tîm ein hun a'r Athro Jonathan Sharples o'r Education Endowment Foundation.

## SEFYDLIADAU BROCERA GWYBODAETH

Yn 2019, gwnaethom gwblhau adolygiad o'r llenyddiaeth ar sefydliadau brocera gwybodaeth a nododd wahanol fathau o froceriaid gwybodaeth, eu nodweddion, a'r bylchau yn y llenyddiaeth sy'n bodoli. Mae'r papur i ddilyn wedi ei dderbyn gan gyfnodolyn academaidd blaengar Policy & Politics i gael ei gyhoeddi yn 2020.

Yn seiliedig ar gyfweliadau manwl gyda staff sy'n gweithio mewn sefydliadau brocera gwybodaeth yng Ngogledd America, yr Affrig ac Ewrop, rydym wedi datblygu astudiaethau achos yn cymharu'r tebygolrwyddau a gwahaniaethau mewn dulliau a'r gwersi ar gyfer ein dealltwriaeth o gyfuno a defnyddio tystiolaeth. Cyflwynwyd y canfyddiadau cychwynnol yn y bedwaredd Gynhadledd Ryngwladol ar Bolisi Cyhoeddus ym Montreal ym mis Mehefin.



# Yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd

Mae cydnabod yr argyfwng yn yr hinsawdd yn ei gwneud hi'n bwysig fod gan lunwyr polisi dystiolaeth i helpu i ysbrydoli'r trawsnewidiadau a'r newidiadau mewn ymddygiad a fydd eu hangen.

Yn 2019, gwnaethom gynnal adolygiad o ffyrdd o lwyddo i gyflawni **'trawsnewid cyfiawn'** i gymdeithas carbon sero-net a chyhoeddi blog ar **ddatgarboneiddio a chyfiawnder cymdeithasol.** Dechreuom waith hefyd ar gyfer Gweinidogion ar ffyrdd o annog gyrwyr i lynu at gyfyngiadau cyflymder 20 milltir yr awr.

Ym mis Mawrth 2020, byddwn yn cynnull gweithdy arbenigol er mwyn ystyried ffyrdd y gall Cymru drawsnewid i economi carbon sero-net ac, ym mis Mai, byddwn yn cynnull Symposiwm Economaidd Cymru, a fydd yn dod ag arbenigwyr blaengar, gweinidogion ac uwch-swyddogion ynghyd i ystyried trafodaethau ôl-twf a dulliau o ddatgarboneiddio.

# Cyfiawnder Cymdeithasol a Chydraddoldeb

## CYDRADDOLDEB RHWNG Y RHYWIAU

Gwnaethom gyfraniadau pwysig iawn at yr **Arolwg Cydraddoldeb Rhywiol**, a gomisiynwyd gan Weinidogion ac a arweiniwyd gan Chwarae Teg.

Ym mis Chwefror, gwnaethom gynnull Cyfnewidfa Nordig gyda'r Dirprwy Weinidog, swyddogion a chynghorwyr Llywodraeth Cymru, ac ymchwilwyr a llunwyr polisi o Ddenmarc, Gwlad yr Iâ, Sweden a'r Ffindir.

Yn tynnu ar y digwyddiad hwn a gweithio gydag arbenigwyr rhyngwladol, cynhyrchom adroddiad yn amlinellu'r hyn y gall Cymru ei ddysgu o geisiadau gan wledydd Sgandinafaidd i brif ffrydio cydraddoldeb rhywiol.

Mewn cydweithrediad ag Ysgol Busnes Caerdydd, gwnaethom drefnu **'Amser Holi ar Gydraddoldeb Rhywio,** a fynychwyd gan lawer iawn ac a oedd yn cynnwys cyfraniadau gan ddirprwyaeth o arbenigwyr Nordig.

## CYLLIDEBU AR SAIL RHYW

Dadansoddom y dystiolaeth **ar fynd i'r afael ag anghydraddoldeb drwy gyllidebu ar sail rhyw** a gwnaethom argymhellion o ran gweithredu cyllidebu ar sail rhyw yng Nghymru. Gwnaeth ein hadroddiad ysbrydoli cyflwyniad gan Lywodraeth Cymru ar gyllidebu ar sail rhyw fel rhan o'r cynllun peilot dwy flynedd o hyd ar Gyfrifon Dysgu Personol. Wedi'i lansio ym mis Medi 2019, mae hwn yn cefnogi oedolion cyflogedig mewn swyddi â chyflogau isel ac â lefel isel o sgiliau i newid gyrfa neu gael mynediad i gyflogaeth ar lefel uwch mewn sectorau â blaenoriaeth ag effeithiau hysbys ar sail rhyw.

Mae'n gyfres o bodlediadau, PEP Talk, yn cynnwys pennod ar ein gwaith ar **gydraddoldeb rhwng y rhywiau**.

## PLANT A PHOBL IFANC

Ar ddechrau 2019, gwnaethom gyhoeddi adroddiad ar y dystiolaeth o ran **dulliau rhyngwladol ar gyfer darpariaeth integredig yn y Blynyddoedd Cynnar** .

Mewn partneriaeth â'r Campbell Collaboration a'r Alliance for Useful Evidence, aethom gam ymhellach gydag Uwch-gynhadledd Yr Hyn sy'n Gweithio ym Melffast er mwyn ystyried **yr hyn sy'n gweithio yn y Blynyddoedd Cynnar**. Gwnaeth grŵp o ymarferwyr a wahoddwyd o Ogledd Iwerddon a gwledydd eraill gwrdd i glywed am dystiolaeth ddiweddar a gynhyrchwyd gan yr Education Endowment Foundation, yr Early Intervention Foundation a'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE).

Adolygodd ail uwch-gynhadledd, a gynullwyd mewn partneriaeth â Chanolfan Yr Hyn sy'n Gweithio yr Alban, y dystiolaeth ar yr hyn sy'n gweithio mewn dulliau seiliedig ar le o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus i blant gyda llunwyr polisi ac ymarferwyr o Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Yn dilyn ein gwaith blaenorol ar hyrwyddo **cadernid emosiynol ac iechyd meddwl ymysg pobl ifanc**, daethom ag ymarferwyr ac ymchwilwyr yng Ngogledd Iwerddon ynghyd ag arbenigwyr o ganolfannau 'Yr Hyn sy'n Gweithio: Llesiant', 'Yr Hyn sy'n Gweithio: Gofal Cymdeithasol i Blant' a'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) i archwilio achosion, gwaith atal a thriniaeth ar gyfer pobl ifanc sy'n profi anawsterau o ran iechyd meddwl.

## MYND I'R AFAEL Â DIGARTREFEDD

Gwahoddwyd Dr Andrew Connell i gyflwyno canfyddiadau allweddol ein gwaith ar ddigartrefedd ymysg pobl ifanc yn **Eisteddfod yr Urdd,** a gwahoddwyd ni i fod yn rhan o dîm etifeddol Prifysgol Caerdydd yn dilyn llwyddiant Cwpan Pêl-droed Digartref y Byd mewn codi ymwybyddiaeth o'r mater. Gwnaethom gyhoeddi podlediad ar **ddigartrefedd ieuenctid** fel rhan o'n cyfres o bodlediadau PEP Talks. Rydym yn archwilio ffyrdd o adeiladu ar y gwaith hwn ac yn cynnull digwyddiad gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yng ngwanwyn 2020.

## CEFNOGI DYLEDWYR BREGUS

Gan adeiladu ar yr adroddiad a gyhoeddom yn 2018 ar sut gall gwasanaethau cyhoeddus gefnogi dyledwyr bregus, cyflwynom ein hargymhellion i Fwrdd Partneriaeth yr Ymddiriedolaeth Cyngor Ariannol ym mis Ebrill 2019 a chynhyrchom **bodlediad** i ddod â mwy o sylw at y mater.



# Ein Grŵp Cynghori

Mae'r Ganolfan yn elwa o gyngor a chefnogaeth Grŵp Cynghori sy'n cynnwys unigolion adnabyddus sy'n deillio o'r byd academaidd, y llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus.

**Stephen Aldridge** yw Cyfarwyddwr ar gyfer Dadansoddi a Data yn y Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol.

**Yr Athro Annette Boaz** yw yr Athro mewn Ymchwil Gofal Iechyd yn y Ganolfan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymdeithasol ym Mhrifysgol San George Llundain a Phrifysgol Kingston.

**Yr Athro Alice Brown** yw Cadeirydd Cyngor Cyllid yr Alban ac Athro Emeritws Gwleidyddiaeth Prifysgol Caeredin.

**Dr Carol Campbell** yw Cyfarwyddwr y Rhwydwaith Gwybodaeth ar gyfer Ymchwil Addysg Gymhwysol – Réseau d'échange des connaissances pour la recherche applique en education.

**Dr Jane Davidson** yw cyn-weinidog Llywodraeth Cymru a Dirprwy Is-ganghellor ar gyfer Ymgysylltiad Allanol a Chynaliadwyedd ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.



**Yr Athro Syr Ian Diamond** yw Ystadegydd Cenedlaethol y DU a chyn-Bennaeth ac Is-ganghellor Prifysgol Aberdeen.

**Dr Ruth Hall** yw Cyfarwyddwr Anweithredol Addysg a Gwella Iechyd Cymru a chyn-Brif Swyddog Meddygol i Gymru.

**Yr Athro Gerry Holtham** yw Athro Hodge yr Economi Ranbarthol, Prifysgol Metropolitan Caerdydd.

**Syr Peter Housden** yw cyn-Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth yr Alban.

**Yr Athro Ruth Hussey** oedd Prif Swyddog Meddygol i Gymru a chadeiriodd Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru.

**Yr Athro Paul Johnson** yw Cyfarwyddwr y Sefydliad Astudiaethau Cyllidol.

**Abdool Kara** yw Arweinydd Gweithredol y Gwasanaethau Lleol yn y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a chyn-Brif Weithredwr awdurdod lleol.

**Yr Athro Laura McAllister** yw Athro mewn Polisi Cyhoeddus a Llywodraethu Cymru yng Nghanolfan Llywodraethu Cymru Prifysgol Caerdydd.

**Dr June Milligan** yw Comisiynydd y Gwasanaeth Sifil ac yn aelod lleyg o gorff llywodraethu Prifysgol Glasgow a chyn-Gadeirydd Pwyllgor Cymru ar Gydraddoldeb a Hawliau Dynol.

**Yr Athro Helen Patterson** yw'r Prif Weithredwr yng Nghyngor Bwrdeistrefol Metropolitanaidd Walsall.

**Yr Athro Nick Pearce** yw Cyfarwyddwr y Sefydliad Ymchwil Polisi ym Mhrifysgol Caerfaddon a chyn-Bennaeth Uned Bolisi 10 Downing Street a'r Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus.

**Ceridwen Roberts** yw cyn-Gymrawd Ymchwil Uwch yn Adran Polisi Cymdeithasol ac Ymyriad Prifysgol Rhydychen.

**Y Fonesig Dr Jane Roberts** yw Cymrawd Ymchwil mewn Arweinyddiaeth Gyhoeddus yn y Brifysgol Agored a chyn-Arweinydd Bwrdeistref Llundain Camden.

**Michael Trickey** yw Uwch-gymrawd Ymchwil Anrhydeddus yn nhîm Dadansoddi Cyllidol Cymru Prifysgol Caerdydd.

**Yr Athro Syr Adrian Webb** yw Cadeirydd Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar yr Economi a'r Gronfa Loteri Fawr, Cymru, ac yn gyn-Is-ganghellor prifysgol ac Athro Polisi Cymdeithasol.



# Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru


Prifysgol Caerdydd
10/12 Plas yr Amgueddfa
Caerdydd
CF10 3BG

www.wcpp.org.uk
info@wcpp.org.uk
029 2087 5345
@WCfPP



Cardiff University
Prifysgol Caerdydd
UKRI Economic and Social Research Council
Llywodraeth Cymru
Welsh Government